YMWELIADAU SAFLE

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi, 2024

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd) Cynghorwyr Geraint Bebb (cais rhif 1), Neville Evans, Glyn Haynes, John I. Jones, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis.
WRTH LAW:	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLIJ) Uwch Swyddog Cynllunio (JR) Peiriannydd Grŵp (Rheoli Datblygiad a Rheoli Traffig)(AR)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Dafydd Roberts, Robin Williams, Alwen Watkin, Liz Wood.
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelodau Lleol: Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones a Sonia Williams (cais rhif 1), Cynghorydd Alun Roberts (cais rhif 2)

---

1 FPL/2023/173 Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr hen dafarndy (Dosbarth Defnydd A3) i fod yn gyfleuster gofal preswyl (Dosbarth Defnydd C2) ynghyd â'i addasu ac ehangu ym Mostyn Arms, Ffordd Cynan, Porthaethwy

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio'r cais i Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwelwyd y safle o Ffordd San Siôr.

2 FPL/2022/289 Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd bresennol ynghyd â chodi annedd a garej newydd ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Ynys Y Big, Ffordd Biwmares, Glyn Garth, Porthaethwy

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio y cais i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwelwyd safle'r cais o du mewn i gwrtil yr eiddo. Dangoswyd i Aelodau lle byddai wal gefn yr annedd arfaethedig wedi'i leoli a oedd wedi'i farcio gyda phegiau metel.

Cynghorydd Ken Taylor
Cadeirydd